



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2024 Rhif 797 (Cy. 126)

2024 No. 797 (W. 126)

LANDLORD A THENANT,
CYMRU

LANDLORD AND TENANT,
WALES

Rheoliadau Tenantiaethau
Amaethyddol (Ceisiadau am
Gydsyniad y Landlord neu
Amrywio Telerau) (Cymru) 2024

The Agricultural Tenancies
(Requests for Landlord's Consent
or Variation of Terms) (Wales)
Regulations 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch datrys anghydfodau mewn perthynas â chydsyniad y landlord ac amrywiadau i delerau contract tenantiaeth ar gyfer tenantiaeth busnes fferm o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 (p. 8) ("Deddf 1995").

Mae Rhan 1 yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol.

Mae Rhan 2 yn darparu i denant atgyfeirio cais i'w gymroddu pan fo cydsyniad y landlord neu amrywriad i delerau contract tenantiaeth ar gyfer tenantiaeth busnes fferm o dan Ddeddf 1995 yn ofynnol naill ai i alluogi tenant i ofyn am gymorth ariannol perthnasol neu i wneud cais am gymorth o'r fath o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4) fel y'i diffinnir yn rheoliad 2 neu er mwyn cyflawni dyletswydd statudol.

Mae rheoliad 3 yn nodi cwmipas y ceisiadau y caniateir eu gwneud o dan y Rhan hon, y gofynion y mae rhaid eu bodloni cyn y gellir gwneud cais a'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad ffurfiol i'r landlord fod cais am gymroddu yn cael ei wneud.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make provision about the resolution of disputes in relation to landlord's consent and variations to the terms of a contract of tenancy of a farm business tenancy under the Agricultural Tenancies Act 1995 (c. 8) ("the 1995 Act").

Part 1 contains introductory provisions.

Part 2 provides for a tenant to refer a request to arbitration where a landlord's consent or a variation of the terms of a contract of tenancy of a farm business tenancy under the 1995 Act is required either to enable a tenant to request or apply for relevant financial support under the Agriculture (Wales) Act 2023 (asc 4) as defined in regulation 2 or in order to meet a statutory duty.

Regulation 3 sets out the scope of requests that may be made under this Part, the requirements that must be met before a request can be made and the information that must be included in a formal notice to the landlord that a request for arbitration is being made.

Mae rheoliad 4 yn darparu y caiff cymrodeddwr, wrth ystyried cais, orchymyn i'r landlord gydymffurfio â'r cais, yn llawn neu'n rhannol, neu wneud unrhyw ddyfarniad neu unrhyw benderfyniad y mae'n ystyried ei fod yn rhesymol ac yn gyfiawn rhwng y landlord a'r tenant.

Mae rheoliad 4(5) yn darparu bod unrhyw ddyfarniad neu unrhyw benderfyniad yn cymryd effaith fel pe bai'r telerau a'r darpariaethau ynddo wedi eu cynnwys mewn cytundeb ysgrifenedig yr ymrwymwyd iddo gan y landlord a'r tenant drwy amrywio'r cytundeb a oedd ar waith yn flaenorol mewn cysylltiad â'r denantiaeth o'r adeg y gwnaed y dyfarniad neu'r penderfyniad neu ar unrhyw ddyddiad diweddarach penodedig.

Mae rheoliad 5 yn darparu ar gyfer adolygiad o'r Rheoliadau hyn erbyn 13 Mehefin 2031 ac ar ysbeidiau heb fod yn hwy na 5 mlynedd wedi hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Regulation 4 provides that when considering a request, an arbitrator may order the landlord to comply with the request, in full or in part, or make any award or determination they consider reasonable and just between the landlord and tenant.

Regulation 4(5) provides that any award or determination takes effect as if the terms and provisions in it were contained in an agreement in writing entered into by the landlord and tenant by way of variation of the agreement previously in place in respect of the tenancy from the making of the award or determination or at any specified later date.

Regulation 5 provides for a review of these Regulations by 13 June 2031 and at intervals not exceeding 5 years thereafter.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on the Welsh Government website www.gov.wales.

2024 Rhif 797 (Cy. 126)

**LANDLORD A THENANT,
CYMRU**

**Rheoliadau Tenantiaethau
Amaethyddol (Ceisiadau am
Gydsyniad y Landlord neu
Amrywio Telerau) (Cymru) 2024**

Gwnaed 16 Gorffennaf 2024
Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 18 Gorffennaf 2024
Yn dod i rym 8 Awst 2024

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 8A(7) o Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

RHAN 1
Rhagarweiniol

Teitl a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Awst 2024.

2024 No. 797 (W. 126)

**LANDLORD AND TENANT,
WALES**

**The Agricultural Tenancies
(Requests for Landlord's Consent
or Variation of Terms) (Wales)
Regulations 2024**

Made 16 July 2024
Laid before Senedd Cymru 18 July 2024
Coming into force 8 August 2024

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 8A(7) of the Agricultural Tenancies Act 1995(1), make the following Regulations.

PART 1
Introductory

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Agricultural Tenancies (Requests for Landlord's Consent or Variation of Terms) (Wales) Regulations 2024.

(2) These Regulations come into force on 8 August 2024.

(1) 1995 p. 8.

(1) 1995 c. 8.

RHAN 2

Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “cymorth ariannol perthnasol” (“*relevant financial support*”) yw cymorth ariannol o dan—

- (a) adran 8 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth),
- (b) cynllun o’r fath a grybwyllir yn adran 9(7) o Ddeddf 2023 (ystyr “cynllun trydydd parti” at ddibenion pŵer i ddarparu cymorth),
- (c) cynllun y taliad sylfaenol, fel y’i diffinnir yn adran 16 o Ddeddf 2023 (pŵer i addasu deddfwriaeth sy’n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol),
- (d) deddfwriaeth sy’n ymwneud ag ariannu, rheoli a monitro’r polisi amaethyddol cyffredin, fel y’i diffinnir yn adran 17 o Ddeddf 2023 (pŵer i addasu deddfwriaeth sy’n ymwneud â’r polisi amaethyddol cyffredin),
- (e) deddfwriaeth sy’n ymwneud â chymorth ar gyfer gwenynyddiaeth, fel y’i diffinnir yn adran 18 o Ddeddf 2023 (pŵer i addasu deddfwriaeth sy’n ymwneud â chymorth ar gyfer gwenynyddiaeth),
- (f) deddfwriaeth sy’n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig, fel y’i diffinnir yn adran 19 o Ddeddf 2023 (pŵer i addasu deddfwriaeth sy’n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig),
- (g) adran 22 o Ddeddf 2023 (pwerau Gweinidogion Cymru i roi cynhorthwy ariannol pan fo amodau eithriadol yn y farchnad);

mae i “daliad” yr ystyr a roddir i “holding” yn adran 38 o Ddeddf 1995;

ystyr “Deddf 1995” (“*the 1995 Act*”) yw Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995;

ystyr “Deddf 2023” (“*the 2023 Act*”) yw Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023(1);

ystyr “dyletswydd statudol” (“*statutory duty*”) yw dyletswydd a osodir gan neu o dan—

- (a) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig,

PART 2

Requests for Landlord’s Consent or Variation of Terms

Interpretation

2. In these Regulations—

“the 1995 Act” (“*Deddf 1995*”) means the Agricultural Tenancies Act 1995;

“the 2023 Act” (“*Deddf 2023*”) means the Agriculture (Wales) Act 2023(1);

“farm business tenancy” (“*tenantiaeth busnes fferm*”) has the meaning given in section 1 of the 1995 Act;

“holding” (“*daliad*”) has the meaning given in section 38 of the 1995 Act;

“landlord” (“*landlord*”) has the meaning given in section 38 of the 1995 Act;

“relevant financial support” (“*cymorth ariannol perthnasol*”) means financial support under—

- (a) section 8 of the Agriculture (Wales) Act 2023 (Welsh Ministers’ power to provide support),
- (b) a scheme of the sort mentioned in section 9(7) of the 2023 Act (meaning of “third party scheme” for purposes of power to provide support),
- (c) the basic payment scheme, as defined in section 16 of the 2023 Act (power to modify legislation governing the basic payment scheme),
- (d) legislation relating to the financing, management and monitoring of the common agricultural policy, as defined in section 17 of the 2023 Act (power to modify legislation relating to the common agricultural policy),
- (e) legislation relating to support for apiculture, as defined in section 18 of the 2023 Act (power to modify legislation relating to support for apiculture),
- (f) legislation relating to support for rural development, as defined in section 19 of the 2023 Act (power to modify legislation relating to support for rural development), or
- (g) section 22 of the 2023 Act (powers of Welsh Ministers to give financial assistance in exceptional market conditions);

(1) 2023 dsc 4.

(1) 2023 asc. 4.

- (b) Deddf gan Senedd Cymru neu Fesur gan y Cynulliad, neu
 - (c) deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir;
- mae i “landlord” yr ystyr a roddir i “landlord” yn adran 38 o Ddeddf 1995;
- mae i “tenant” yr ystyr a roddir i “tenant” yn adran 38 o Ddeddf 1995;
- mae i “tenantiaeth” yr ystyr a roddir i “tenancy” yn adran 38 o Ddeddf 1995;
- mae i “tenantiaeth busnes fferm” yr ystyr a roddir i “farm business tenancy” yn adran 1 o Ddeddf 1995.

Cais am gydsyniad y landlord neu amrywio telerau

3.—(1) Caiff tenant tenantiaeth busnes fferm atgyfeirio cais cymwys i’w gymroddu o dan Ddeddf 1995.

(2) Yn y Rhan hon, cais cymwys yw cais sy’n bodloni’r amodau a ganlyn—

- (a) mae’n cais am—
 - (i) cydsyniad y landlord i fater y mae cydsyniad o’r fath yn ofynnol ar ei gyfer o dan delerau’r denantiaeth, neu
 - (ii) amrywiad i delerau’r denantiaeth;
- (b) mae’n cael ei wneud at ddibenion—
 - (i) galluogi tenant i ofyn am gymorth ariannol perthnasol neu i wneud cais am gymorth o’r fath, neu
 - (ii) cydymffurfio â dyletswydd statudol sy’n gymwys i’r tenant;
- (c) ni ddaethpwyd i gytundeb â’r landlord ar y cais.

(3) Ni chaniateir atgyfeirio cais cymwys i’w gymroddu o dan baragraff (1) oni bai bod yr amodau a ganlyn wedi eu bodloni—

- (a) rhaid i’r tenant fod wedi talu unrhyw rent sy’n ddyledus o dan y denantiaeth y mae’r cais yn ymwneud â hi yn ddarostyngedig i unrhyw gytundeb ysgrifenedig rhwng y landlord a’r tenant i’r gwrthwyneb;
- (b) rhaid i’r tenant fod wedi codi’r cais gyda’r landlord mewn ysgrifen;
- (c) ni chaiff y denantiaeth fod yn destun hysbysiad ymadael dilys o dan adrannau 5 i 7 o Ddeddf 1995 na ellir ei herio gan y tenant mwyach o dan ddarpariaethau’r Ddeddf honno.

“statutory duty” (“*dyletswydd statudol*”) means a duty imposed by or under—

- (a) an Act of Parliament,
 - (b) an Act of Senedd Cymru or an Assembly Measure, or
 - (c) retained direct EU legislation;
- “tenancy” (“*tenantiaeth*”) has the meaning given in section 38 of the 1995 Act;
- “tenant” (“*tenant*”) has the meaning given in section 38 of the 1995 Act.

Request for landlord’s consent or variation of terms

3.—(1) A tenant of a farm business tenancy may refer a qualifying request to arbitration under the 1995 Act.

(2) In this Part, a qualifying request is a request which meets the following conditions—

- (a) it is a request for—
 - (i) the landlord’s consent to a matter which under the terms of the tenancy requires such consent, or
 - (ii) a variation of the terms of the tenancy;
- (b) it is made for the purposes of—
 - (i) enabling the tenant to request or apply for relevant financial support, or
 - (ii) complying with a statutory duty applicable to the tenant;
- (c) no agreement has been reached with the landlord on the request.

(3) A qualifying request may not be referred to arbitration under paragraph (1) unless the following conditions are met—

- (a) the tenant must have paid any rent due under the tenancy to which the request relates subject to any agreement in writing between the landlord and tenant to the contrary;
- (b) the tenant must have raised the request in writing with the landlord;
- (c) the tenancy must not be subject of a valid notice to quit under sections 5 to 7 of the 1995 Act which can no longer be contested by the tenant under the provisions of that Act.

(4) I wneud atgyfeiriad am gymroddedu mewn cysylltiad â chais yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid i'r tenant gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r landlord, ar ben yr hysbysiad a roddir o dan baragraff (3)(b), yn gofyn am gydsyniad y landlord i fater y mae cydsyniad yn ofynnol ar ei gyfer o dan delerau'r denantiaeth neu i amrywiad i delerau'r denantiaeth.

(5) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (4) gynnwys y canlynol—

- (a) manylion y cais sy'n cael ei wneud o dan baragraff (1);
- (b) datganiad ynghylch at ba un neu ragor o'r dibenion a ganlyn y mae'r cais yn cael ei wneud—
 - (i) galluogi tenant i ofyn am gymorth ariannol perthnasol neu i wneud cais am gymorth o'r fath;
 - (ii) cydymffurfio â dyletswydd statudol sy'n gymwys i'r tenant;
- (c) pan fo'r cais yn gais am amrywiad i delerau'r denantiaeth—
 - (i) telerau newydd arfaethedig y denantiaeth, a
 - (ii) prawf bod yr amrywiad i delerau'r denantiaeth y gofynnir amdano yn cynrychioli'r newid lleiaf sy'n rhesymol angenrheidiol i alluogi'r tenant i ofyn am y cymorth ariannol perthnasol neu i wneud cais am y cymorth hwnnw neu i gyflawni'r ddyletswydd statudol;
- (d) pan fo'r cais yn cael ei wneud er mwyn cael mynediad at gymorth ariannol perthnasol—
 - (i) disgrifiad o'r gweithgareddau y cynigir eu cynnal ar y daliad os caniateir y cais ac os yw unrhyw gais am gymorth ariannol perthnasol yn llwyddiannus, a
 - (ii) tystiolaeth i gefnogi disgwyliad rhesymol y bydd y tenant yn gymwys i ofyn am gymorth ariannol perthnasol neu i wneud cais am gymorth o'r fath os caniateir y cais;
- (e) datganiad bod darpariaethau yn y Rheoliadau hyn y caniateir atgyfeirio ceisiadau odanynt i'w cymroddedu os na fydd cytundeb.

(6) Caiff y cymroddedwr a benodir addasu hysbysiad y tenant wedyn o dan baragraff (4) os yw'n angenrheidiol gwneud hynny, ac os oes cyfiawnhad dros wneud hynny, gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol.

(4) To make a reference for arbitration in respect of a request in accordance with this regulation, the tenant must serve on the landlord a notice in writing, further to that given under paragraph (3)(b), requesting landlord's consent to a matter which under the terms of the tenancy requires consent or to a variation of the terms of the tenancy.

(5) A notice under paragraph (4) must include the following—

- (a) details of the request being made under paragraph (1);
- (b) a statement as to which of the following purposes the request is being made for—
 - (i) enabling the tenant to request or apply for relevant financial support;
 - (ii) complying with a statutory duty applicable to the tenant;
- (c) where the request is for a variation of the terms of the tenancy—
 - (i) the proposed new terms of the tenancy, and
 - (ii) a demonstration that the requested variation of the terms of the tenancy represents the minimum change that is reasonably necessary to enable the tenant to request or apply for the relevant financial support or to meet the statutory duty;
- (d) where the request is made in order to access relevant financial support—
 - (i) a description of the activities proposed on the holding if the request is granted and any application for relevant financial support is successful, and
 - (ii) evidence to support a reasonable expectation that the tenant will be eligible to request or apply for relevant financial support if the request is granted;
- (e) a statement that there are provisions in these Regulations under which requests may be referred to arbitration in the absence of agreement.

(6) The arbitrator appointed may subsequently modify the tenant's notice under paragraph (4) if it is necessary and justified to do so taking into consideration all the relevant circumstances.

(7) O fewn y cyfnod o 2 fis ar ôl i'r tenant roi hysbysiad sy'n bodloni'r gofynion ym mharagraff (5), caiff y landlord gyflwyno gwrth-hysbysiad sydd—

- (a) yn cydsynio i'r cais,
- (b) yn cydsynio i'r cais yn ddarostyngedig i amodau a nodir yn y gwrth-hysbysiad, neu
- (c) yn gwrthod y cais.

(8) Caiff y tenant atgyfeirio'r cais i'w gymrodeddu o fewn y cyfnod o 2 fis ar ôl i hysbysiad y tenant gael ei gyflwyno—

- (a) os nad yw'r landlord yn cyflwyno gwrth-hysbysiad;
- (b) os yw'r landlord yn cyflwyno gwrth-hysbysiad sy'n cydsynio i'r cais yn ddarostyngedig i amodau nad ydynt yn dderbyniol i'r tenant;
- (c) os yw'r landlord yn cyflwyno gwrth-hysbysiad yn gwrthod y cais.

Dyfarniadau neu benderfyniadau gan y cymrodeddwr

4.—(1) Pan wneir atgyfeiriad at gymrodeddwr i benderfynu cais yn unol â rheoliad 3, caiff y cymrodeddwr orchymyn i'r landlord gydymffurfio â'r cais (naill ai yn llawn neu i'r graddau a bennir yn y dyfarniad neu'r penderfyniad) neu wneud unrhyw ddyfarniad arall neu unrhyw benderfyniad arall y mae'r cymrodeddwr yn ystyried ei fod yn rhesymol ac yn gyfiawn rhwng y landlord a'r tenant.

(2) Fel rhan o unrhyw ddyfarniad neu unrhyw benderfyniad a wneir o dan baragraff (1), caiff y cymrodeddwr gynnwys unrhyw ddyfarniadau neu unrhyw benderfyniadau y mae'n ystyried eu bod yn rhesymol ac yn gyfiawn rhwng y landlord a'r tenant mewn cysylltiad ag—

- (a) talu costau;
- (b) pan wneir cais at ddibenion galluogi'r tenant i ofyn am gymorth ariannol perthnasol neu i wneud cais am gymorth o'r fath, amodau sy'n ymwneud â gwneud cais llwyddiannus;
- (c) amodau sy'n cyfyngu ar allu tenant i wneud unrhyw atgyfeiriad dilynol am gymrodeddu o dan y Rhan hon mewn cysylltiad â'r un cais ac mewn perthynas â'r un denantiaeth;
- (d) amodau sy'n ymwneud â materion eraill gan gynnwys yr adeg y mae'r dyfarniad yn cymryd effaith.

(3) Ni chaiff y cymrodeddwr wneud unrhyw ddyfarniad nac unrhyw benderfyniad sy'n cynnwys amrwyd i rent y daliad fel rhan o unrhyw ddyfarniad neu unrhyw benderfyniad a wneir o dan baragraff (1).

(7) Within the period of 2 months from the tenant giving a notice which meets the requirements in paragraph (5), the landlord may serve a counter-notice which—

- (a) consents to the request,
- (b) consents to the request subject to conditions which are set out in the counter-notice, or
- (c) refuses the request.

(8) The tenant may refer the request to arbitration within the period of 2 months from the service of the tenant's notice if the landlord—

- (a) does not serve a counter-notice;
- (b) serves a counter-notice which consents to the request subject to conditions which are not acceptable to the tenant;
- (c) serves a counter-notice refusing the request.

Awards or determinations by the arbitrator

4.—(1) When a reference is made to an arbitrator to determine a request in accordance with regulation 3, the arbitrator may order the landlord to comply with the request (either in full or to the extent specified in the award or the determination) or make such other award or determination as the arbitrator considers reasonable and just between the landlord and the tenant.

(2) As part of any award or determination made under paragraph (1), the arbitrator may include such awards or determinations as they consider reasonable and just between the landlord and the tenant in respect of—

- (a) the payment of costs;
- (b) where a request is made for the purposes of enabling the tenant to request or apply for relevant financial support, conditions relating to the making of a successful application;
- (c) conditions restricting a tenant's ability to make any subsequent reference to arbitration under this Part in respect of the same request and in relation to the same tenancy;
- (d) conditions relating to other matters including the time at which the award takes effect.

(3) The arbitrator must not make any award or determination which includes a variation to the rent of the holding as part of any award or determination made under paragraph (1).

(4) Ni chaiff y cymrodeddwr wneud unrhyw ddyfarniad nac unrhyw benderfyniad mewn cysylltiad ag unrhyw ddigollediad sy'n daladwy i'r landlord neu'r tenant fel rhan o unrhyw ddyfarniad neu unrhyw benderfyniad a wneir o dan baragraff (1).

(5) Mae dyfarniad neu benderfyniad gan gymrodeddwr o dan y Rhan hon yn cael effaith fel pe bai'r telerau a'r darpariaethau a bennir ac a wneir yn y dyfarniad neu'r penderfyniad wedi eu cynnwys mewn cytundeb ysgrifenedig yr ymrwymwyd iddo gan y landlord a'r tenant ac sy'n cael effaith (drwy amrywio'r cytundeb a oedd mewn grym yn flaenorol mewn cysylltiad â'r denantiaeth) fel o'r adeg y gwnaed y dyfarniad neu'r penderfyniad neu, os yw'r dyfarniad neu'r penderfyniad yn darparu hynny, o unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir.

RHAN 3

Adolygiad

Adolygiad

5.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd—

- (a) cynnal adolygiad o'r Rheoliadau hyn,
- (b) nodi casgliadau'r adolygiad mewn adroddiad, ac
- (c) cyhoeddi'r adroddiad.

(2) Rhaid i'r adroddiad cyntaf o dan y rheoliad hwn gael ei gyhoeddi cyn 13 Mehefin 2031.

(3) Rhaid i adroddiadau dilynol o dan y rheoliad hwn gael eu cyhoeddi ar ysbeidiau heb fod yn hwy na phum mlynedd.

(4) The arbitrator must not make any award or determination in respect of any compensation payable to the landlord or tenant as part of any award or determination made under paragraph (1).

(5) The award or determination of an arbitrator under this Part has effect as if the terms and provisions specified and made in the award or determination were contained in an agreement in writing entered into by the landlord and tenant and having effect (by way of variation of the agreement previously in force in respect of the tenancy) as from the making of the award or determination or, if the award or determination so provides, from such later date as may be specified.

PART 3

Review

Review

5.—(1) The Welsh Ministers must from time to time—

- (a) carry out a review of these Regulations,
- (b) set out the conclusions of the review in a report, and
- (c) publish the report.

(2) The first report under this regulation must be published before 13 June 2031.

(3) Subsequent reports under this regulation must be published at intervals not exceeding five years.

Huw Irranca-Davies

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
16 Gorffennaf 2024

©Hawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
16 July 2024

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

£8.14

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/797>

ISBN 978-0-348-39588-4



9 780348 395884